## Ideas for praying creatively

**Newspaper prayers**

Give out local or national newspapers and encourage everyone to find things to give thanks and pray for. They could ring the articles with marker pens or cut them out.



Canolfan Henblas
Stryd Fawr, Y Bala
**Swyddfa barhaol ar gael i'w llogi, desg boeth, neu ystafelloedd cyfarfod.**
Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar 01678521796 neu canolfanhenblas@gmail.com

# Y Cyfnod

*Dydd Iau, Ebrill y 16eg 2026* — *PRIS: £1*

Ein hanesion wythnosol- Newyddion
Sydd heddiw'n gyfredol,
Daw inni'r lleddf a'r doniol
Da iawn yw ei weld yn ôl.
A.S

## Hanes yn cael ei greu: Llanuwchllyn yn bencampwyr!

*Lluniau gan Gar Charles*

**Cynghrair Ardal Gogledd Ddwyrain**
**CPD Llanuwchllyn 7 - Builth Wells 1**

Cafwyd prynhawn i'r brenin ddoe, wrth i Lanuwchllyn greu hanes yn erbyn Llanfair ym Muallt.
Pedwar pwynt oedd ei angen ar y tîm i ennill y gynghrair, a gyda chanlyniad gêm Knighton, y tîm yn yr ail safle, yn ffafriol hefyd, un fuddugoliaeth oedd ei angen i sicrhau'r bencampwriaeth.
O'r eiliad cyntaf, Llan oedd yn meistrioli ddydd Sadwrn gan reoli'r chwarae am 90 munud.
Cafwyd dechrau arbennig, gyda Llan yn gyntaf i beli llac ac yn ymateb yn sydyn i unrhyw flerwch.
Roedd yn amlwg bod chwaraewyr Llan yn benderfynol o ennill y frwydr yng nghanol cae, gyda Aled Parry, Ilan Hughes a Dale Davies yn hynod o weithgar ac yn rheoli'r chwarae.
O'r dechrau, roedd Kyle Jones, Dafydd Griffith a Joe Vaughan yn awdurdodol iawn yn y cefn, yn hawlio pob peniad ac yn dangos y gallu i reoli ymosodwyr chwim a gweithgar Builth.
Er iddi lawio'n drwm cyn ac yn ystod y gêm, roedd Llan yn dangos y gallu i gadw meddiant gan symud y bêl yn daclus iawn ar brydiau.
O'r dechrau, roedd Llan yn bygwth amddiffyn yr ymwelwyr ac ar ôl dau funud yn unig bu i Llan fynd ar y blaen. Steffan Dolben a Gwydion Roberts yn cyfuno'n dda a Gwyds yn darganfod y rhwyd gyda'i droed chwith. 1-0.
Daeth yr ail yn fuan wedyn, gyda Steff yn creu unwaith eto. Llwyddodd i ddarganfod Gwydion eto a llwyddodd yntau i ddarganfod gornel y rhwyd. 2-0.
Ar ôl hanner awr o chwarae, roedd Steff yn creu unwaith eto. Y tro hwn, Aled Parry oedd yn dathlu wrth iddo sgorio ei gôl gyntaf i'r clwb. 0-3.
Daeth yr olaf cyn yr hanner o bas perffaith Dafydd Evans wrth iddo ddarganfod Meilir Williams. Mewn un symudiad, llwyddodd Mei i reoli'r bêl ac ergydio heibio'r gôl geidwad. Gôl o safon, ac efallai gôl y tymor! 0-4
Roedd Llan yn parhau i reoli'r gêm ar ddechrau'r ail hanner, gyda'r ddau asgellwr Daf a Steff yn gwneud rhediadau da.
Roedd ymosodwyr Llan yn brysur yn creu mwy o gyfleoedd hefyd gyda Gwydion a Meilir yn bygwth ar sawl achlysur. Roedd y gwrthwynebwyr yn ceisio gwrth-ymosod, ond er eu hymdrechion, cadarn oedd y tri yn y cefn a doedd dim posib cynhyrfu Rob Dascalu yn y gôl.
Bu i Llan wneud sawl newid ond roedd Llan yn parhau i reoli. Er hyn, yn erbyn rhediad y chwarae, bu i Builth sgorio wrth iddynt fanteisio ar bêl llac. 4-1
Daeth y nesaf i Llan o'r smotyn. Gwydion Roberts yn cael ei lorio yn y cwrt cosbi a Meilir yn sgorio ei ail o'r gêm a chanfed gôl Llan yn y gynghrair eleni!! 5-1
Gyda deng munud yn weddill, cafodd Gwydion Roberts ei lorio unwaith eto a llwyddodd Steffan Dolben i sgorio o 25 llath. Chwip o gic rhydd i'w gwneud hi'n 6-1.
Gyda'r chwiban olaf yn agosau, chwaraeodd Gwyds y bêl yn berffaith i lwybr Meilir a llwyddodd yntau i ryddhau ergyd nerthol i gornel ucha'r rhwyd a sgorio hatric - gôl rhif 43 yn y gynhrair (48 i gyd). Chwip o gôl i ddiweddu'r gêm a sicrhau triphwynt haeddianol i Llan.
Gwelsom sawl perfformiad arbennig ddoe, gyda Gwydion Roberts a Meilir Williams yn derbyn sawl pleidlais.
Er hyn, Steffan Dolben hawliodd Seren Y Gêm.
Diolch yn fawr iawn i Aeron a Diane Jones, Tynycefn, Llanuwchllyn am noddi'r bêl a'r gêm.
3 gôl Meilir Williams - Noddwyd gan Swn Y Môr
2 gôl Gwydion Roberts - Noddwyd gan Gwasanaeth Coed Tom H Edwards Tree Services
1 x gôl Aled Parry - Ar gael i'w noddi
1 x gôl Steffan Dolben - Ar gael i'w no
Seren y gêm - Steffan Dolben
Hoffai'r Pwyllgor, y cefnogwyr a phawb y pentref longyfarch Sion a'i dîm i gyd am hymdrechion dros y tymor. Mae pawb m falch o'r llwyddiant yma, ac mae Sion a'r garfan i gyd yn haeddu pob clod.
Bydd her anferth yn wynebu'r tîm a'r clw tymor nesaf.
Mae hyd yn oed trafod bod pentref Llanuwchllyn yn mynd i fod yn chwarae haen pêl-droed Cymru yn gwbl anhygoel
Ond yn saff, mi fydd Sion ar garfan yn wynebu'r her ben ben, yn gwbl broffesiyn yn ymroi yn llwyr i'r her.
Ymlaen i haen 2 â ni!

*Llanuwchllyn produced a historic and dominant performance to secure the No East Wales Area League title with a 7–1 victory over Builth Wells, controlling the from start to finish and sealing promotio style.*
*From the opening minutes they domina the match, producing a clinical attackin display to seal a deserved championsh victory.*

## Rhedeg i gefnogi elusen ganser

Roedd tua 2,500 o fenywod yn rhedeg yn y gwynt, glaw, haul ac ychydig o genllysg penwythnos diwethaf fel rhan o farathon elusennol unigryw.
Bwriad y marathon She Ultra, sydd wedi ei gynnal am y trydydd tro eleni, ydy i godi arian gyfer elusennau canser.
Wrth gychwyn yn gynnar fore Sadwrn, mae merched o bob gallu wedi bod yn rhedeg ne gerdded y daith o dros 50 cilomedr - neu 31 milltir.
Ond tra'i fod yn gylchdaith heriol, mae hefyd wedi ei ddylunio ar gyfer merched o bob g a gallu.